# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
## 12fed CHWEFROR 2016

**Presennol:** **Cynghorydd D.M. Cundy (Cadeirydd)**

**Cynghorwyr:** **J.M. Charles, S.L. Davies, W.R.A. Davies, T. Devichand, J.K. Howell, H.I. Jones, S. Matthews, J. Owen, H.B. Shepardson, E.G. Thomas (Is-Gadeirydd), G.B. Thomas**

**Hefyd yn bresennol:**

**Cynghorydd L.D. Evans – Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (Tai)**
**Cynghorydd D.M. Jenkins – Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (Adnoddau)**

**Roedd y swyddogion canlynol hefyd yn bresennol:**

Mr. R. Staines – Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
Mr. M. Hughes – Ymgynghorydd Cynorthwyol

**Lleoliad:** Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin (10:00yb – 12:00yp)

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Thomas a'r Cynghorydd M. Gravell (yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol.

### 3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

### 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

### 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Rhoddwyd rhestr i'r Pwyllgor o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ar 24ain Mawrth 2016.

**Penderfynwyd yn unfrydol** nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol.

## 6. SAFON TAI SIR GAERFYRDDIN A MWY (CHS+) 'CYFLAWNI'R HYN SYDD O BWYS'

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Gynllun Rhaglen Safon Tai Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2016-2019. Dwedwyd wrth yr aelodau y cafodd rhaglen Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy ei seilio ar waith rhaglen flaenorol Safon Tai Sir Gaerfyrddin, a gwblhawyd yn 2015, er mwyn cynnal a gwella ar y gwaith a wnaed eisoes. Tair agwedd allweddol ar y Cynllun oedd:

- Cynorthwyo tenantiaid a thrigolion gyda materion megis Diwygio Lles, sicrhau bod gwasanaethau'n gywir, arbed arian i denantiaid yn y cartref, cynhwysiant digidol a heneiddio'n egnïol
- Buddsoddi mewn tai i gynnal safonau
- Darparu rhagor o dai i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy

Croesawyd y Cynllun gan y Pwyllgor, gan ddiolch i Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd a'i staff am y gwaith rhagorol a gyflawnwyd eisoes a'r cymorth parhaus a ddarperir gan swyddogion i denantiaid y Cyngor.

Codwyd y materion canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:

Cyfeiriwyd at y rhaglen o atgyweirio tai a chyfeiriwyd at dai penodol yn yr un stadau yn cael eu hatgyweirio neu'u hail-rendro ac eraill heb gael hynny. Hysbyswyd y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y câi'r rhaglen ail-rendro ei chynnal ar sail angen a fyddai'n awgrymu pam fod rhai tai wedi'u cwblhau ac eraill heb. Hysbysodd y Pwyllgor fod adolygiad o'r rhaglen rendro / paentio yn cael ei gynnal gan Adran yr Amgylchedd ac mai hanfodol yw cyfathrebu ag aelodau lleol ar faterion o'r fath.

Mewn ymateb i gwestiwn ar fuddsoddi yn y stoc dai bresennol, atgoffwyd y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd bod gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i gynnal y tai a ddiweddarwyd o dan raglen flaenorol Safon Tai Sir Gaerfyrddin ar y lefel hon yn ogystal â gwella 'fforddiadwyedd' y tai drwy eu gwneud yn rhatach i'w rhedeg drwy osod bylbiau golau sy'n effeithlon ar ynni er enghraifft. Byddai unrhyw welliannau neu ailosodiadau a gaiff eu nodi gan swyddogion yn ystod y 'gwiriadau tai' blynyddol yn cael eu cynnwys ar raglen waith barhaus. Roedd yr Awdurdod hefyd yn ceisio newid neu drawsnewid tai nad oeddynt yn addas at anghenion presennol yn ogystal â gwella golwg y stadau eu hunain.

Gofynnwyd pa mor aml y câi'r monitorau Carbon Monocsid eu gwirio. Atgoffwyd y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd mai Cyngor Sir Caerfyrddin oedd yr Awdurdod cyntaf i gynnwys monitorau Carbon Monocsid yn y safon, a oedd yn uwch na'r gofynion cenedlaethol. Hysbysodd y Pwyllgor fod y monitorau hyn, ynghyd â larymau mwg ac offer fel boeleri a thanau, yn cael eu gwirio'n flynyddol.

Gofynnwyd am eglurhad o'r rheswm dros gynyddu'r ddarpariaeth i ddileu dyledion drwg gan fod yr adroddiad hefyd yn nodi bod ôl-ddyledion rhent wedi gostwng yn ystod y 12 mis diwethaf. Hysbyswyd y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod y ddarpariaeth hon i ddileu dyledion drwg ar gael i gynorthwyo

tenantiaid a allai fod yn ei chael yn anodd talu eu rhent er mwyn iddynt barhau yn eu cartrefi. Y bwriad oedd atal achosion posibl o droi allan drwy gydweithio'n fwy hyblyg â thenantiaid i reoli eu dyledion. Rhoddodd dawelwch meddwl i'r Pwyllgor gan ddweud, yn achos rhai a allai dalu ond a wrthodai, bod yr Awdurdod yn ymgymryd a thua 20 achos o droi pobl allan o'u tai bob blwyddyn.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â phenderfyniadau rhai tenantiaid i wrthod gwelliannau i'w heiddo, roedd Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn cydnabod bod darpariaeth yn y rhaglen i gyd-fynd â cheisiadau'r tenantiaid hyn, pe dymunent wneud hynny. Byddai tai na chawsant eu hatgyweirio i Safon Tai Sir Gaerfyrddin fel arfer yn cael eu diweddaru pan fyddant yn dod yn wag.

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â rhan tenantiaid yn y rhaglen newydd. Meddai Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod llwyddiant rhaglen gychwynnol Safon Tai Sir Gaerfyrddin yn seiliedig ar ran tenantiaid yn y broses. Ond, gyda'r rhaglen bellach wedi dod ben, byddai'r swyddogion yn edrych am ffyrdd newydd i ymgysylltu â thenantiaid, yn arbennig gan nad oes llawer yn mynychu dulliau traddodiadol fel cyfarfodydd cymunedol. Byddai dulliau ymgysylltu newydd, fel defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, yn cael eu harchwilio ymhellach.

Gofynnwyd am fanylion pellach am y cynllun i ddarparu rhagor o gartrefi. Hysbyswyd y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod yr Awdurdod yn ceisio cyfleoedd i ddefnyddio arian y Cyfrif Refeniw Tai i gynyddu nifer y tenantiaethau a reolir gan Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol, dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, a phrynu tai preifat yn ôl.

Cyfeiriwyd at safleoedd garejys a gofynnwyd p'un a ellid gwneud gwell defnydd ohonynt, er mwyn darparu mwy o le parcio, er enghraifft. Atgoffwyd y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod tua 1,500 o garejys / plotiau garejys ledled y sir, a bod eu statws (e.e. p'un a oeddynt yn cael eu rhentu drwy gytundebau tenantiaeth ar wahân neu mewn perchnogaeth breifat) hefyd yn amrywio'n fawr o safle i safle. Hyd yma, bu'r gwasanaeth yn gweithio fesul safle yn hytrach na rhoi un dull ar waith ar draws yr awdurdod cyfan, am mai tenantiaid ac aelodau etholedig lleol a wyddai beth oedd orau i bob safle. Ychwanegodd, er nad oedd rhaglen cynnal a chadw yn ei lle ar gyfer garejys, bod rhywfaint o arian ar gael i gynorthwyo cymunedau lleol i drawsnewid safleoedd garejys. Ond byddai'n rhaid i'r penderfyniad terfynol ynglŷn â beth i'w wneud â safleoedd penodol gael ei wneud gan y cymunedau lleol. Awgrymodd Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd hefyd i'r swyddogion gyflwyno adroddiad cynhwysfawr ar safleoedd garejys i'r Pwyllgor ar ryw bwynt yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at olwg llawer o'r stadau ac awgrymwyd mai un opsiwn er mwyn gwella fyddai casglu gwair ar ôl ei dorri yn hytrach na'i adael i bydru ar y gwair. Hysbyswyd y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd bod rhywfaint o waith ar y gweill mewn cydweithrediad ag Adran yr Amgylchedd i ymestyn y rhaglen torri gwair am ei bod yn ymddangos bod y tymor wedi ymestyn yn sgil amodau amrywiol yn yr hinsawdd yn y blynyddoedd diwethaf. Er hyn, ychwanegodd nad oedd yr Awdurdod yn casglu'r gwair ar ôl ei dorri am y byddai hyn yn ychwanegu tua £300,000 i'r gost o dorri gwair.

Gwnaed awgrymiadau ychwanegol ynglŷn â golwg stadau tai'r Awdurdod, gan gynnwys defnyddio ardaloedd gwair llai o faint ar gyfer parcio ychwanegol yn ogystal â phlannu blodau gwyllt i helpu â bioamrywiaeth. Bu i Bennaeth Tai a

Diogelu'r Cyhoedd gydnabod yr awgrymiadau ac ychwanegodd na adeiladwyd y stadau gyda lle i 2 neu ragor o geir i bob aelwyd. Petai cymuned yn cyflwyno cynigion o'r fath i'r Awdurdod, byddai'r swyddogion yn eu hystyried fel rhan o gynllun gwella amgylcheddol, ond byddai gofyn bod cefnogaeth gref gan y gymuned a bod achos busnes yn cael ei wneud drwy broses fusnes y Cyfrif Refeniw Tai. Ychwanegodd, yn achos prosiectau gwella eraill, fel plannu blodau, fod hyn unwaith eto yn weithgarwch y gellid ei gynnig gan denantiaid lleol a chyfeiriodd at brosiect diweddar lle'r oedd siop gwelliannau i'r cartref wedi rhoi blodau a phlanhigion i'w plannu i stad benodol fel rhan o'r rhaglen credydau amser. Mewn ymateb i ymholiad pellach am gredydau amser, cynghorodd y Pwyllgor nad oedd y rhaglen yn gweithredu'n llawn ledled y sir eto, ond hyd yma roedd 10,000 o oriau o weithgarwch gwirfoddol ychwanegol wedi'u cofnodi. Cytunodd i gylchredeg manylion pellach y rhaglen i'r Pwyllgor.

Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r cysylltiadau â Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Awgrymodd Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod modd dadlau mai rhaglen Safon Tai Sir Gaerfyrddin fu'r prosiect adfywio mwyaf i'w gynnal yn y sir hyd yma a theimlid y dylid catalogio manteision y gwelliannau tai a wireddwyd. Roedd y swyddogion ar waith â pharatoi papur mewn cydweithrediad ag ymarferwyr tai eraill a oedd yn gysylltiedig â gwaith ymchwil blaenorol gyda Phrifysgolion Caerdydd ac Abertawe a ganolbwyntiai ar iechyd a lles tenantiaid a'r cyswllt â safonau tai.

Mewn ymateb i gwestiwn ar osod cyfleusterau Wi-Fi mewn cynlluniau llety gwarchod, meddai Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod hyn ar gael yn yr ardaloedd cymunol yn unig am fod gan denantiaid unigol yn aml eu llinellau ffôn preifat eu hunain a mynediad i'r we yn eu hystafelloedd eu hunain.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**:

6.1 Dderbyn yr adroddiad.

6.2 Argymell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn cadarnhau gweledigaeth Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy a'r rhaglen ariannol a chyflawni dros y tair blynedd nesaf.

6.3 Argymell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn cadarnhau cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru.

## 7. CYNLLUN DARPARU TAI FFORDDIADWY

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy drafft a roddai fanylion sut y bwriadai'r Awdurdod ddarparu rhagor o dai. Roedd hefyd yn amlinellu ba adnoddau a ddefnyddid. Nododd y Pwyllgor fod y rhaglen gychwynnol yn anelu i ddarparu rhagor na 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y pum mlynedd nesaf, gyda chyfanswm o fwy na £60m o fuddsoddiad.

Codwyd y materion canlynol mewn perthynas â'r adroddiad a'i atodiadau:

Awgrymwyd bod gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd ei 'angen' ar drigolion y sir a'r hyn sydd ei 'eisiau' arnynt ac y dylai cynigion i ddarparu tai fforddiadwy gael eu hasesu'n ofalus ar gyfer gwahanol ardaloedd. Meddai Pennaeth Tai a Diogelu'r

Cyhoedd nad oedd digon o adnoddau ar gael i ariannu dymuniadau pawb, ond mai targedu cymorth lle mae'r angen fwyaf, mewn ardaloedd trefol a gwledig, fyddai ffordd yr Awdurdod o weithredu. Ond awgrymodd, er bod yr angen a fynegwyd yn cyfateb i ffigurau'r boblogaeth mewn rhai ardaloedd, y teimlai'r swyddogion na chaiff yr angen ei fynegi'n ddigonol mewn ardaloedd eraill a bod angen gwaith pellach i sicrhau bod y data mor gywir â phosibl.

Gofynnwyd pa effaith fyddai'r gwahanol fodelau darparu tai fforddiadwy yn ei gael ar denantiaid. Atgoffwyd y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd, yn dilyn newidiadau diweddar, fod gan denantiaid awdurdodau lleol a chymdeithasau tai cymdeithasol yr un math o gontract ond nad oedd hyn yn berthnasol i rai sy'n rhentu yn y sector preifat. Meddai y gallai'r Awdurdod Lleol ddarparu tai gwirioneddol fforddiadwy ar rent petai'r eiddo o dan ei reolaeth, pa bynnag ffordd y cawsant eu hadeiladu neu'u prynu. Er hyn, byddai Llywodraeth Cymru yn fuan yn ei gwneud yn ofynnol i renti awdurdodau lleol gyd-fynd â rhenti cymdeithasau tai cymdeithasol a byddai hyn yn golygu cynnal rhai sgyrsiau anodd gyda thenantiaid tai yn y dyfodol agos.

Awgrymwyd mai'r model darparu delfrydol fyddai i'r Awdurdod Lleol adeiladu rhagor o dai newydd ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor. Cytunodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai, ond er mwyn gwneud i'r adnoddau sydd ar gael ymestyn yn bellach, roedd defnyddio modelau gwahanol a 'meddwl y tu allan i'r bocs' yn cynnig cyfleoedd gwahanol i'r Awdurdod wneud y defnydd gorau o'i arian. Byddai adeiladu'n fewnol yn cynnig cwmpas cyfyngedig iawn i'r Awdurdod i fenthyg ymhellach yn sgil cyfyngiadau ariannol a orfodir arno gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd at ymweliad diweddar â Sir y Fflint i weld enghraifft o fodel cwmni masnachu lleol a nododd bod ymweliadau pellach â Birmingham ac Ealing wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol agos.

Mynegwyd pryder na chaiff yr un cymorth ei gynnig, efallai, i denantiaid cymdeithasau tai cymdeithasol â'r hyn a gynigir i denantiaid y Cyngor, yn arbennig mewn perthynas â rheoli ôl-ddyledion rhent ac ati. Atgoffwyd y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y caiff Cymdeithasau Tai Cymdeithasol eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru ond bod eu rhenti, yn y pen draw, yn uwch na rhenti awdurdodau lleol. Nododd fod gan rai awdurdodau bolisi rhent dau drac sy'n cynnwys rhenti 'arferol' a 'fforddiadwy'. Ond er bod modd dehongli diffiniad 'fforddiadwy' mewn ffyrdd gwahanol, Llywodraeth Cymru oedd yn gosod ei lefel. Nododd Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd hefyd fod menter Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol yn ffordd llwyddiannus iawn a chost effeithiol i gael rhagor o deuluoedd i mewn i dai fforddiadwy drwy ymdrin ag eiddo preifat fel rhan o stoc tai fforddiadwy'r sir. Er hyn, calonogodd y Pwyllgor drwy ddweud, mewn perthynas â'r Cynllun hwn, y byddai holl stoc yr Awdurdod Lleol yn destun ei rhenti ei hun.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r adnoddau i gynorthwyo'r gwaith o ddychwelyd eiddo gwag i gael eu defnyddio, hysbyswyd y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod cynlluniau yn eu lle i gynyddu'r cymorth i'r swyddog sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r Cynllun Trwyddedu Dethol yn Llanelli, atgoffwyd y Pwyllgor gan y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd mai cynllun y Cyngor yw hwn sydd â'r nod o leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardal benodol o'r dref, a hyd yma roedd tua 50% o'r landlordiaid wedi cofrestru. Nid oedd yn sicr ynglŷn â faint o'r rhain oedd wedi trosglwyddo'r gwaith o reoli eu

heiddo i Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol yr Awdurdod ond cytunodd i gael eglurhad ar hyn i aelodau'r Pwyllgor.

Gofynnwyd p'un a oedd lle i fod yn hyblyg o ran gosod rhent ar gyfer eiddo a gynigir drwy Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol yr Awdurdod. Meddai Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod yr Asiantaeth, wrth weithredu y tu allan i gyfyngiadau'r Cyfrif Refeniw Tai, yn cael ei dylanwadu gan gyfyngiadau'r lwfans tai lleol. Er hyn, petai'r aelodau yn cytuno i ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai i ddod â rhagor o eiddo i fod yn rhan o'r fenter, byddai mwy o gyfle i negodi swm y rhent yn seiliedig ar rhenti masnachol yn yr ardal leol.

Gofynnwyd p'un a fyddai modelau darparu eraill yn cael eu cynnig. Awgrymodd Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y gallai'n wir fod modelau eraill i'r aelodau eu hystyried, ond y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn eu tro ac mai penderfyniad i'r Cyngor Sir fyddai hyn yn y pen draw.

Awgrymwyd efallai na fyddai £60m yn ddigonol i gyflawni'r targed o 1,000 o dai fforddiadwy newydd a gofynnwyd p'un a yw'r Is-adran Gynllunio yn cynorthwyo'r Gwasanaethau Tai a Diogelu'r Cyhoedd i sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael drwy'r broses gynllunio. Atgoffwyd y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod y broses gynllunio y tu hwnt i reolaeth ei swyddogion ond bod swyddogion o'i is-adran, ynghyd â chynrychiolwyr Eiddo a Chynllunio Corfforaethol, bellach yn cydweithio i sicrhau bod y cyngor yn manteisio'n llawn ar bob cais cynllunio o ran tai fforddiadwy a buddion cymunedol eraill.

Cyfeiriwyd at yr amser yr oedd yn ymddangos ei bod yn cymryd i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Roedd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai yn cydnabod bod gan bob aelod etholedig eiddo gwag yn eu wardiau ond nid oedd hynny o anghenraid yn golygu eu bod yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf. Roedd angen i'r swyddogion fod yn ofalus i beidio ag adnewyddu eiddo a fyddai yn eu tro yn anodd eu gosod am eu bod wedi'u lleoli mewn ardal eithriadol o wledig.

Mynegwyd pryder y gallai tai fforddiadwy newydd gael eu hadeiladu mewn ardaloedd gweithredu sydd â diffyg seilwaith fel gwasanaethau bws ac amwynderau lleol eraill, neu y gallai cyfyngiadau cynllunio hefyd effeithio ar hyfywedd safleoedd penodol, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Cynigwyd, wrth baratoi cynigion ar gyfer ardaloedd gweithredu yn y dyfodol, y caiff ystyriaeth briodol ei rhoi i ba mor bosibl yw eu darparu a pha mor gynaliadwy ydynt, gan gynnwys materion fel pa mor addas yw'r seilwaith lleol (e.e. amwynderau lleol) a chyfyngiadau cynllunio posibl. Cytunodd y Pwyllgor i'r cynnig hwn.

Gofynnwyd i Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd ai bwriad y swyddogion yw ymgynghori ag aelodau etholedig lleol ar yr hyn allai gael ei adeiladu yn eu wardiau. Tawelwyd meddwl y Pwyllgor gan Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd drwy ddweud fod gwybodaeth leol yr aelodau etholedig yn hanfodol wrth gynnig safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**:

7.1 Dderbyn yr adroddiad.

7.2 Argymell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn cadarnhau'r strategaeth i ddefnyddio ein hopsiynau presennol i sicrhau'r cyflenwad mwyaf o dai fforddiadwy dros y pum mlynedd nesaf.

7.3 Argymell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn edrych ar opsiynau i sicrhau'r nifer uchaf o dai a adeiledir o'r newydd y gellid eu darparu, a darparu argymhellion erbyn mis Medi 2016.

7.4 Argymell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn cadarnhau'r dull ardaloedd gweithredu i ddarparu rhagor o dau fforddiadwy mewn gwahanol rannau o'r sir.

7.5 Argymell i'r Bwrdd Gweithredol, wrth baratoi cynigion ar gyfer yr ardaloedd gweithredu, y dylid rhoi ystyriaeth briodol i ba mor bosibl yw eu darparu a pha mor gynaliadwy ydynt, gan gynnwys materion fel pa mor addas yw'r seilwaith lleol presennol (e.e. amwynderau lleol) a chyfyngiadau cynllunio posibl.

## 8. EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r eglurhad a ddarparwyd am beidio â chyflwyno adroddiad ar raglenni a ariennir gan yr UE ac a ariennir yn allanol.

**PENDERFYNWYD** nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.

## 9. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

**PENDERFYNWYD** derbyn y diweddariad sy'n rhoi manylion y cynnydd mewn perthynas â gweithrediadau, ceisiadau neu atgyfeiriadau a ddeilliodd o gyfarfodydd craffu blaenorol.

## 10. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR Y 15FED O IONAWR 2016

**PENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 15fed Ionawr 2016 fel cofnod cywir.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**